**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**19.02.2026 @ 7.00pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**PONTRHYDFENDIGAID**

## 1. CROESO'r CADEIRYDD A MATERION PERSONOL

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Elgan Williams, bawb i'r cyfarfod.

## 2. YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mel Briant;
Y Cynghorydd Ieuan Davies;
Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies;
Y Cynghorydd Gareth Edwards;
Y Cynghorydd Non Jones;
Y Cynghorydd Richard Jones;
Y Cynghorydd Gareth Owen;
Y Cynghorydd Elgan Williams ac
Eleri Thomas (Clerc)

## 3. YMDDIHEURIADAU

Ymddiheurodd y Cynghorydd Alun Price Jones, y Cynghorydd Angharad Jones a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCyrH) John Evans am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

## 4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

**Darparodd SCCyrH John Evans y wybodaeth ganlynol am faterion yn ymwneud â'r heddlu, 19 Chwefror, 2026**

Ymddygiad gwrthgymdeithasol/ Aflonyddwch :0
Byrgleriaeth : 0
Difrod Troseddol : 0
Lladrad : 0
Ymosodiad Trais : 0
Twyll : 0
Amrywiol: -
1)Ar 16-02-26 adroddodd swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Sir Ceredigion at sylw'r heddlu fod adroddiad wedi'i dderbyn gan aelod o'r cyhoedd parthed llinell bysgota wedi'i chlymu ar draws y fynedfa'r lôn werdd wrth fynedfa Coedwigaeth Ystrad Fflur. Cafodd y llinell bysgota ei thynnu i ffwrdd gan aelod y cyhoedd a oedd hefyd wedi anfon manylion y digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd Plismona Cymdogaeth yn monitro unrhyw adroddiadau pellach o'r fath ac yn cynnal patrolau'n yr ardal.

2) Er gwybodaeth ar 16-02-26 adroddodd preswylydd ardal Tregaron fod hen chnyr llaeth a ddefnyddiwyd fel blwch post wedi'i ddwyn o'r tu allan i'r eiddo. Roedd y blwch post / chnyr llaeth wedi'i baentio'n wyrdd a'r ddraig goch yn weladwy ynghyd ag enw'r tŷ.

Derbyniwyd trwy lythyr neges gan Mrs Clare Hughes, Argoed, Stryd y Felin, Pontrhydfendigiad yn datgan pryder am gerbydau oedd wedi'u parcio ar fynedfa Stryd y Felin ac yn gyfagos i'w chartref, Argoed, gyferbyn â'r Llew Du. Hefyd, roedd biniau olwyn a chonau mawr yn beryg. Ar rai diwrnodau, byddai cerbydau mwy o faint na char yn ei gweld hi'n amhosibl gyrru trwy'r lôn i gynnwys, mewn argyfwng, frigâd dân ac ambiwlans.
Ar adegau penodol, roedd cerbydau wedi'u parcio ar gyffordd y ffordd hon;
gallai damwain ddigwydd oherwydd y lleoliad anweladwy ar yr ochr dde.
Cytunwyd cyfeirio'r consyrn at Gyngor Sir Ceredigion a
Heddlu Dyfed-Powys.

1. **DATGANIAD O FUDDIANT PERSONOL A RHAGFARNLLYD:** Dim wedi'i ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION 15fed Ionawr 2026**

   **CYNIGIWYD (Y Cynghorydd Richard Jones); EILIWYD (Y Cynghorydd Gareth Owen)** a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion 15fed Ionawr 2026 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

3. **MATERION SY'N CODI**

7.1 **Pafiliwn y Bont:** trafodaeth yn mynd yn ei flaen rhwng dirprwyaeth y Cyngor Cymuned a Phwyllgor Eisteddfod Pontrhydfendigiad mewn ymgais i sefydlu'r ffordd ymlaen.

7.2 **Cynllun lle:** https://placemaking-ceredigion.wales/ Cynhaliwyd sesiwn ar-lein a dirprwyaeth o'r Cyngor Cymuned wedi mynychu. Holiadur ar-lein i'w gwblhau erbyn dydd Sul 22ail Chwefror 2026.

7.3 **Ardal Chwarae Pantyfedwen**
Cytunwyd clustnodi sylw i Grant y Loteri Genedlaethol.
Gallai Hazel Thomas, Prif Weithredwr CAVO, gynnig cymorth mewn perthynas â chyllid grant ac argymhellir Cyllid y Loteri Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol Cymru | Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – roedd llawer o leoedd yng Ngheredigion wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais ac yn werth rhoi sylw i'r grant yn ei barn hi.

**Cyllid grant a dderbyniwyd eisoes i'w ddefnyddio i dalu'r gwariant canlynol:**
Ffens Burrell, cylchfan a llithren ac i adnewyddu'r parc cyfan â chôt o baent.

7.4 **Bin Graean: yng nghyffiniau Heol y Bannau**: yn awr yn ei le. Archebwyd Bin Graean ar gyfer Ystâd Maesydderwen.

7.5 **Bioamrywiaeth Adran 6**: Gwaith ar y gweill. Roedd y Cynghorydd Mel Briant yn clustnodi sylw i'r mater.

7.6 **Parcio o flaen y Garej: llinellau melyn dwbl angen eu hamlygu i atal parcio yn yr ardal hon.** Disgwylir ateb gan GS Ceredigion.

7.7 **Cinio Blynyddol:** Y Llew Coch, Pontrhydfendigiad, Nos Gwener 20th Chwefror 2026 am 7pm.

7.8 **Lôn Fach: Bont Werdd: llifogydd:** Roedd y Cynghorydd Non Jones wedi ymdrin â'r mater.

**7.9 Cerbyd ar y Glas:** Roedd y lifft yn dal i fod yn nodwedd o'r Glas.

**7.10 Pwyllgorau:**
Pwyllgor y Neuadd: i waredu â'r Goeden Nadolig. Bin trydan wedi'i brynu: cyfanswm o £1,400. Pwyllgor y Nadolig: i dalu am y Goleuadau Nadolig.

**7.11 Torri Glaswellt dros fisoedd yr haf yn y Pentref**: i geisio tendrau erbyn dydd Iau 19 Mawrth 2026. 6.55pm. Hysbysiadau i'w gosod ar Fb, Barcud a Siop y Pentref.
**1. Glan-yr-Afon – 3 toriad**
**2. Rhifau 1-5 Maesydderwen – 3 toriad**
**3. Mynedfa i'r Pentref tua 2m o'r arwydd ar y brif fynedfa i gynnwys y Glas 5/6 toriad**
**4. O amgylch Neuadd Pantyfedwen toriadau x6 i gynnwys y tu fewn i ffens yr Ysgol Feithrin a'r Parc. Doedd dim hawl torri glaswellt yn ystod oriau'r Ysgol Feithrin.**
**Dyfynnu fesul toriad.**

4. **GOHEBIAETH**

**8.1 Gohebiaeth gan Mrs Clare Hughes yn** diolch i'r Cynghorwyr Cymuned a oedd wedi mynychu angladd ei mam yn ddiweddar yn Aberystwyth ac am y cerdyn o gydymdeimlad**.**

**8.2 E-bost gan Carys Aldous-Hughes,** Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur, yn estyn gwahoddiad i'r cyngor cymuned i ymweld ag Abaty Ystrad Fflur. Byddai'n gyfle i siarad â staff a byddai aelodau'r cyngor cymuned yn cael y cyfle i gerdded o amgylch y safle a chael y wybodaeth ddiweddaraf am waith a phrosiectau parhaus a'r rhai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Ar hyn o bryd roedd llawer o weithgareddau yn digwydd a chyfleoedd i'r gymuned gymryd rhan. Cytunwyd awgrymu penwythnos ddiwedd Mai 2026 neu yn ystod Mehefin 2026.

**8.3 Ysgrifennydd Pwyllgor Neuadd Pantyfedwen:** hysbysu aelodau o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Neuadd Pantyfedwen: Dydd Llun 16 Mawrth 2026 am 7pm yn y Neuadd.

**8.4 Chwilio am dir cyffredin ar dyrbinau gwynt a pheilonau mewn ardaloedd gwledig;** Dydd Mercher 11 Mawrth 2026 ar Zoom: er gwybodaeth.

**8.5 Cod Ymddygiad i Aelodau:** CS Ceredigion: i'w arddangos ar y wefan

**8.6 Gohebiaeth pellach: Er gwybodaeth yn unig –**
**roedd llawer o negeseuon e-bost wedi'u**
**hanfon ymlaen at Gynghorwyr, rhwng cyfarfodydd, yn electronig.**

**9. CYNLLUNIO – dim materion cynllunio i'w hadrodd.**

**10. CYLLID**

**TALIADAU**

**10.1 Baneri Pentref** d/l Y Cynghorydd Ieuan Davies £40

**10.2 Cyflog y Clerc: Ion/Chwef 2026** £238.33 x 2; Treuliau: £34.44

**10.3 Archwiliad Ariannol Blynyddol:** Pwyllgor Neuadd Pantyfedwen: d/l Mrs Enid Hughes £100

**10.4 Yswiriant y Cyngor Cymuned**: i adolygu mewn cyfarfod y dyfodol.

**11. Eitemau ar gyfer Facebook: Holiadur Cynllun Lle; Torri Glaswellt- Hysbyseb**

**12. UNRHYW FUSNES ARALL**

**12.1 Baneri ar gyfer y Pentref:** i'w gosod mewn lle cyn Dydd Gŵyl Dewi**.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Nos Iau 19eg Mawrth 2026 @7pm.**

**Llofnod/ Dyddiad -----------------------------------------------------------------------------------------**